

# Cod Ymddygiad Cerdded y Ci i Sir Benfro

## Edrychwch ar ôl eich ci

- Cadwch eich ci yn agos ac o fewn golwg - ar dennyn os oes rhaid a bob amser os nad yw'n ateb eich galwad yn syth.
- Gwnewch yn siŵr fod eich ci yn gwisgo coler, disg adnabod ac wedi derbyn sglodyn-meicro.
- Peidiwch â chaniatáu i'ch ci fynd yn agos at ymyl clogwyni, moroedd garw neu gerrynt llanw cryf.
- Meddyliwch am y tywydd - ar ddiwrnodau poeth gall ceir a thraethau fod yn rhy dwym i gŵn.

## Edrychwch ar ôl ein harfordir a chefn gwlad

- Codwch faw eich ci bob amser, mae hyn yn ofyniad cyfreithiol ar draethau a mannau lle mae pobol yn cerdded neu chwarae.
- Ewch â baw eich ci mewn bag adre gyda chi neu rhowch e mewn bin sbwriel.
- Gwnewch yn siŵr fod eich ci ar dennyn yn agos i anifeiliaid fferm ac nad yw'n rhedeg ar ôl adar neu fywyd gwyllt arall.
- Pan fydd gwartheg yn bresennol cadwch eich ci ar dennyn oni bai eich bod yn teimlo o dan fygythiad - yn yr achos hwn gadewch i'r ci fynd a gwneud yn siŵr eich bod chi'n ddiogel.
- Dilynwch arwyddion a chadw at ddeddfau lleol megis cyfyngiadau ar gŵn ar draethau.
- Cadwch eich ci ar y llwybr wrth gerdded yng nghefn gwlad.

## Byddwch yn ystyriol o eraill

- Dangoswch barch at bobol eraill a'u cŵn.
- Cadwch eich ci draw o rai sy'n marchogaeth ceffylau, beicwyr a phicnics.
- Peidiwch â gadael i'ch ci gyfarth yn ormodol.
- Cofiwch nad yw pawb yn hoffi cŵn, yn enwedig plant bach.

Cynhyrchwyd mewn ymgynghoriad â Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

**Pembrokeshire Coast National Park**